# Ymateb i Lywodraeth Cymru: Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

**Rhagfyr 2014**

Tŷ Trafalgar | 5 Fitzalan Place | Caerdydd | Ffôn: 02920 376750 | Ffacs: 02920 341541 |
www.citizensadvice.org.uk

## Gwybodaeth am Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr ac mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda'i swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yn y Rhyl. Mae 20 o Swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru sydd oll yn aelodau o Cyngor ar Bopeth Cymru, gan ddarparu gwasanaethau mewn dros 250 o leoliadau.

Mae'r cyngor a ddarperir gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn ddi-dâl, annibynnol, cyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb, beth bynnag fo'u hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oed neu genedligrwydd

Gwirfoddolwyr hyfforddedig yw'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau Cyngor ar Bopeth. Mae pob aelod o staff cynghori, p'un a yw'n weithiwr â thâl neu'n wirfoddolwr, wedi'i hyfforddi mewn sgiliau cynghori a bydd yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar bynciau penodol a mynediad at gymorth arbenigol ar gyfer pynciau gwahanol, gan gynnwys tai.

Dau nod gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yw:

- rhoi'r cyngor sydd ei angen ar bobl i ddelio â'r problemau y maent yn eu hwynebu
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r canolfannau lleol, o dan delerau aelodaeth Cyngor ar Bopeth, yn darparu cyngor craidd yn seiliedig ar dystysgrif safonau ansawdd ar faterion defnyddwyr, budd-daliadau lles, tai, trethi, iechyd, cyngor ariannol, cyflogaeth, materion teuluol a phersonol, mewnfudo a chenedligrwydd ac addysg.

Rydym yn fodlon i'n hymateb fod ar gael i'r cyhoedd

Noder: yn yr ymateb hwn, cyfeirir at gamdriniaeth a thrais ar sail rhywedd fel CThRh.

## Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cynnwys cam-drin ariannol yn fanwl ym mhob lefel o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ond yn enwedig Lefel 1 er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r math cyffredin hwn o gamdriniaeth.
    - Byddem yn croesawu trafodaeth â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r deunydd hwn.
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar-lein a deunyddiau cysylltiedig ar gael yn rhad ac am ddim i wasanaethau preifat a gwasanaethau'r trydydd sector sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd.
    - Gydag amser, rydym am i hyfforddiant Lefel 1 fod yn ofyniad gorfodol ar gyfer unrhyw wasanaeth cyhoeddus allanol.
- Dylai canllawiau ei gwneud yn orfodol i Awdurdodau Lleol gynnig hyfforddiant Lefel 2 i'r holl staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad ym meysydd budd-daliadau lles, dyled, cynhwysiant ariannol, cymorth i denantiaid, a byw'n annibynnol.
- Sicrhau bod cyllid digonol ar gael fel bod:
    - Gwasanaethau cefnogi arbenigol yn gallu rheoli unrhyw gynnydd yn y dioddefwyr CThRh a nodir sy'n gofyn am ragor o wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth o ganlyniad i well ymwybyddiaeth o faterion CThRh.
    - Staff priodol yn gallu cael eu rhyddhau i gymryd rhan yn y consortia hyfforddi rhanbarthol arfaethedig a chyflawni'r gwaith cymorth a datblygu sy'n ofynnol yn ogystal â darparu'r hyfforddiant.
- Sicrhau bod dull seiliedig ar hawliau'n cael ei gymryd gyda siaradwyr Cymraeg, gan ymgynghori, ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo er mwyn llunio adnoddau priodol sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol a diwylliannol.

Er ein bod yn cydnabod mai ar gyfer sector cyhoeddus Cymru y mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, rydym yn argymell y dylid cymryd pob cam posibl er mwyn sicrhau yr anogir cyrff sydd heb eu datganoli megis yr Adran Gwaith a Phensiynau i gymryd rhan a hynny er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfannol a chydlynol ar gyfer pobl Cymru. Dylai staff gwasanaethau cyhoeddus sydd heb eu datganoli, yn enwedig yr Adran Gwaith a Phensiynau, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru gael mynediad at yr hyfforddiant a dylid eu hannog i gymryd rhan er mwyn helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r ffordd y mae budd-daliadau'n cael eu dosbarthu mewn teuluoedd pan fo achosion o gam-drin ariannol. Mae hyn yn hynod bwysig o ystyried bod bwriad i gredyd cynhwysol gael ei dalu i un cyfrif fesul aelwyd.

Pan fo hynny'n briodol, byddem hefyd yn argymell cynnwys hanesion personol dioddefwyr a phobl sy'n cam-drin yn eu geiriau hwy.

### Cwestiwn 1: Pa gyfleoedd sydd ar gael i integreiddio neu gysoni rhannau o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol â'r Fframweithiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n cael eu defnyddio eisoes gan weithwyr proffesiynol yn eu gwaith?

Credwn y dylid cyflawni gwaith gyda chyrff proffesiynol penodol sy'n cynrychioli gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd, megis iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu i ystyried y dulliau gorau o integreiddio. Byddem yn cefnogi'n gryf integreiddio i mewn i addysg y gweithwyr proffesiynol hyn o'r cyfnodau cynharaf, megis cyrsiau graddau meddygol neu waith cymdeithasol a gynigir gan Brifysgolion Cymru fel bod y wybodaeth wedi'i sefydlu a'i bod yn cefnogi'r ymgyrch gyhoeddus ehangach i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CThRh.

Mae Cyngor ar Bopeth wrthi'n ystyried y dulliau gorau o integreiddio ein hyfforddiant ar drais ar sail rhywedd mewn ffordd gynaliadwy, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein rhaglen Ymholiad Arferol GOFYN (YA GOFYN). Mae'r rhaglen YA GOFYN yn cael ei datblygu er mwyn GOFYN cwestiwn rwtîn am brofiad y cleient o drais a cham-drin ar sail rhywedd (y cyfeirir ato fel CThRh) fel rhan o'r broses gynghori, gan roi cyfle i gleientiaid ddatgelu camdriniaeth yn gynnar yn y broses gynghori. Rydym yn dechrau'r rhaglen gyda chanolfannau yn gwirfoddoli i fod yn fabwysiadwyr cynnar. Cynhelir y broses mewn lleoliadau wyneb yn wyneb yn unig ac ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â dyledion a budd-daliadau yn bennaf. Ar hyn o bryd, darperir y cwrs hyfforddi deuddydd trwy berthynas gytundebol gydag Yn Erbyn Trais a Cham-drin (Against Violence and Abuse - AVA) i oruchwylwyr sesiynau cynghori er mwyn rhoi'r sylfaen sgiliau a gwybodaeth iddynt fel y gallant wedyn gyflwyno'r dull YA GOFYN i'w cynghorwyr yn y canolfannau. Mae'r goruchwylwyr wedyn yn rhaeadru'r hyfforddiant i gynghorwyr a bydd yr hyfforddiant hwn a ddarperir yn y canolfannau (o fis Ionawr 2015) yn cael ei gefnogi gan raglen e-ddysgu mynediad cyffredinol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr ledled rhwydwaith Cyngor ar Bopeth, yn debyg i lefel 1 yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

Mae gwaith ar y gweill yn fewnol ar sut i integreiddio'r deunydd i mewn i raglen datblygu a hyfforddi goruchwylwyr sesiynau cynghori, neu a ddylid cadw'r hyfforddiant fel modiwl ar wahân er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cael ei gyflwyno'n briodol gan bobl sydd â gwybodaeth a phrofiad arbenigol. Credwn y gallai peryglon posibl godi pe bai'r hyfforddiant CThRh yn cael ei integreiddio ar gyfer aelodau'r canolfannau a'r cleientiaid y maent yn eu cynorthwyo. Mae hyn ar sail pryder y gallai integreiddio'r cynnwys a'r ddarpariaeth olygu nad yw staff wedi'u huwchsgilio neu eu galluogi'n briodol i ymateb i ddatgeliadau. Byddem yn croesawu trafodaethau â Llywodraeth Cymru a rhannu canlyniadau dysgu ar integreiddio hyfforddiant CThRh arbenigol i mewn i raglenni hyfforddiant a DPP, yn ogystal â rhannu arferion da o ran e-ddysgu.

### Cwestiwn 2: Pa gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau bod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? A oes gennych chi bryderon y gallai unrhyw ran o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn mai siaradwyr Cymraeg yw'r bobl orau i lywio datblygiad yr agweddau Cymraeg ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn argymell y dylid defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau defnyddwyr gan ymgynghori â siaradwyr Cymraeg, ymgysylltu â hwy a'u cynorthwyo i ddefnyddio'u hiaith a chynllunio gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion o ran iaith a diwylliant.

### Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r canlyniadau dysgu, y meini prawf asesu, y strwythur cyflwyno a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer lefel 1 (tudalen 16)?

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cytuno â'r canlyniadau dysgu arfaethedig, y meini prawf asesu a'r strwythur cyflwyno ar gyfer lefel 1. Fel y nodir yn ein tystiolaeth a'n cyhoeddiad diweddar 'Controlling Money, Controlling lives: Financial Abuse in Britain', credwn nad yw cam-drin ariannol yn cael ei adrodd, ei nodi na'i ddeall yn ddigonol. Yn aml, mae cam-drin ariannol yn ddim ond un o'r dulliau rheoli gorfodol y mae pobl sy'n cam-drin yn ei ddefnyddio yn erbyn eu dioddefwyr, a gall barhau ar ôl iddynt wahanu gan barhau i gael effaith hirdymor ar sefydlogrwydd ariannol unigolion. Fel y gŵyr Cyngor ar Bopeth yn dda, mae sefydlogrwydd ariannol yn ganolog i fywydau pobl; i'w hincwm a'u gallu i ofalu a chartrefu eu hunain a'u teuluoedd. Rhan o'r rheswm y mae cam-drin ariannol mor ddinistriol, ac mor effeithiol yn yr hirdymor yw ei allu i darfu ar y sylfeini hyn. Felly, byddem yn croesawu'n benodol i'r ffurf hon ar CThRh gael ei chynnwys yn fanwl ym mhob lefel o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ond yn enwedig lefel 1 er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dull mynych hwn o gamdriniaeth.

Gofynnwn i'r deunyddiau ar-lein a'r deunydd cysylltiedig fod ar gael yn rhwydd ac am ddim i wasanaethau preifat a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda'r cyhoedd, gyda gwaith yn cael ei dargedu'n benodol i annog rhagor i ddefnyddio'r adnoddau hyn a'u hystyried yn rhan o gynllun hirdymor y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Credwn ei bod yn hynod bwysig i unrhyw wasanaeth sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy drefniadau cytundebol gael cynnig y cyfle a'u hannog i ddefnyddio a chyflawni hyfforddiant lefel 1, boed yn wasanaeth gofal cartref dan berchnogaeth breifat, yn wasanaeth cynghori cynhwysiant ariannol neu'n ddarpariaeth arlwyo mewn ysgol. Byddem am weld hyfforddiant lefel 1, gydag amser, yn ofyniad gorfodol ar gyfer unrhyw wasanaeth cyhoeddus allanol, yn enwedig yn sgil bwriadau i aildrefnu awdurdodau lleol a'r defnydd cynyddol o bartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r canlyniadau dysgu, y meini prawf asesu, y strwythur cyflwyno a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer lefel 2 (tudalen 21)?

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cytuno â'r canlyniadau dysgu arfaethedig a'r meini prawf asesu ar gyfer Lefel 2.

Nid ydym wedi'n llwyr argyhoeddi am gynaliadwyedd parhaol y strwythur cyflawni arfaethedig o ystyried y bydd y gweithwyr proffesiynol a dargedir i ddarparu'r hyfforddiant yn lleol o dan ragor o bwysau a'u hamser yn brin i'w gyflawni yn ogystal â'u dyletswyddau gorfodol craidd. Gall fod yn gynyddol anodd rhyddhau'r hyfforddwyr o'u swyddi dyddiol heb ddarparu cyllid i dalu am gwblhau'r gwaith rheng flaen yn ystod yr amserlen arfaethedig gan fod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gweithredu gwasanaethau effeithlon gydag ychydig o le i dalu am staff cyflenwi.

Byddem yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i sicrhau y gellir rhyddhau staff priodol i gymryd rhan yn y consortia hyfforddi rhanbarthol arfaethedig a chyflawni'r gwaith datblygu a chymorth sy'n ofynnol yn ogystal â chyflawni hyfforddiant lefel 2. Heb y cymorth ariannol ychwanegol hwn mae'n bryder i ni na all y consortia hyfforddi rhanbarthol o bosibl gyflawni'r canlyniadau fel y bwriadwyd, neu ffurfio rhan hanfodol o ymateb strategol er mwyn sicrhau cyflawniad parhaus amcanion Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

### Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o weithwyr proffesiynol perthnasol sydd wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer hyfforddiant ar lefel 2 (Holi a Gweithredu) (tudalen 23)?

Ydym. Hefyd, dylai'r rhai a restrwyd yn flaenoriaeth gynnwys ystod ehangach o weithwyr cymdeithasol, o ystyried yr amrywiaeth o strwythurau gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau cynhwysiant wedi'i dargedu o'r rhai sy'n gweithio gyda grwpiau cleientiaid sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio gan drais domestig, e.e. gweithwyr cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal a gweithwyr cymdeithasol Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy.

### Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, pa weithwyr proffesiynol y mae'n rhaid eu hychwanegu at y rhestr neu eu tynnu oddi arni o gofio'r cyfyngiadau cyffredinol ar adnoddau?

Rydym yn nodi nad yw'r rhestr yn cynnwys pawb a bod y meini prawf blaenoriaeth a amlinellir yn golygu y gellir darparu ar gyfer ystod ehangach o staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd. Fel yr amlygwyd yn ein tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnig hyfforddiant lefel 2 i bob aelod staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad ym meysydd budd-daliadau lles, dyled, cynhwysiant ariannol, cymorth i denantiaid a byw'n annibynnol. Wrth deilwra hyfforddiant ar gyfer y grwpiau hyn, dylid ystyried gwybodaeth ychwanegol ac adnoddau'n ymwneud â cham-drin ariannol er mwyn sicrhau eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth, yn ogystal â'r ystod o asiantaethau sydd ar gael i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin ariannol i fynd i'r afael ag unrhyw ddyled gysylltiedig a chynyddu eu hincwm lle bo hynny'n briodol.

Yn yr un modd, byddem yn argymell bod yr arweiniad yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau sy'n gweithio yn y meysydd hyn ar ran cyrff cyhoeddus hefyd yn cyflawni hyfforddiant lefel 2.

### Cwestiwn 7: Ym mha drefn y byddech chi'n blaenoriaethu'r gweithwyr proffesiynol i dderbyn hyfforddiant?

Credwn y dylid blaenoriaethu ar lefel ranbarthol, yn ôl y sylfaen sgiliau a gwybodaeth sydd eisoes ar gael. Wrth flaenoriaethu, dylid cydnabod yr amrywiaeth o ran gwybodaeth am CThRh, y sgiliau cyfredol ac agweddau ar wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, yn ôl y Cynllun Datblygu Lleol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a sbardunwyr strategol eraill.

### Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf i'w defnyddio i bennu'r rheini a ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer hyfforddiant ar lefel 2 (tudalen 23)?

Byddem yn croesawu mwy o eglurder ac enghreifftiau o sut i adnabod grwpiau cleientiaid y cred Llywodraeth Cymru y dylid eu blaenoriaethu o ran effaith CThRh ar y ffordd y mae unigolion yn ymwneud â gwasanaeth.

### Cwestiwn 9: Pa arsylwadau fyddech chi'n eu gwneud ar y dull cyflwyno ar gyfer lefel 2? A fyddech chi'n argymell unrhyw ddulliau cyflwyno gwahanol (tudalen 26)?

Fel yr amlygwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 4, credwn, o bosibl, na fydd y dull cyflwyno yn gynaliadwy heb gymorth ariannol priodol i alluogi staff i gael eu rhyddhau'n rheolaidd i gymryd rhan ac i ddarparu'r model arfaethedig.

Efallai y bydd dull hyfforddi'r hyfforddwr hefyd yn gofyn am adnoddau a hyfforddiant ychwanegol a ddylai gael eu darparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol. Gall gweithwyr proffesiynol fod â phrofiad a gwybodaeth berthnasol am y gynulleidfa a'r sector, ond bod arnynt angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol i ddod yn hyfforddwyr effeithiol.

Yn ogystal â'r dull o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, byddem yn argymell darparu adnoddau ar-lein i alluogi dysgwyr i ddiweddaru eu gwybodaeth a rhoi cyfarwyddyd ar wybodaeth ychwanegol, adnoddau a gwasanaethau arbenigol. Mae Cyngor ar Bopeth yn defnyddio dulliau dysgu cymysg er mwyn sicrhau bod anghenion dysgwyr gwahanol yn cael eu diwallu a bod adnoddau ar gael i wirio a diweddaru gwybodaeth.

### Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r canlyniadau dysgu, y meini prawf asesu, y strwythur cyflwyno a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer lefel 3 (tudalen 28)?

Credwn fod y canlyniadau dysgu arfaethedig a'r meini prawf asesu'n glir ac y byddant yn galluogi cyfranogwyr i weithredu'n ddiogel i leihau peryglon posibl i gleientiaid a'u teuluoedd sy'n dioddef CThRh. Fel yr amlygwyd yn ein hymateb uchod ar y dull cyflawni arfaethedig, credwn na fydd y dull cyflawni o bosibl yn gynaliadwy oni ddarperir adnoddau ychwanegol a chymorth ariannol priodol.

### Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau arbenigol trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael ei hyfforddi i lefel briodol sy'n gysylltiedig â'i rôl?

Ydym.

### Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cyrsiau sydd wedi'u rhestru ar gyfer proffesiynau arbenigol ar lefel 4?

Byddem yn argymell mai'r rhai sy'n darparu cymorth ymarferol ac sy'n ymwybodol o gam-drin ariannol ac asiantaethau yw'r rhai mwyaf priodol i ddarparu cymorth arbenigol ym meysydd dyled, rheolaeth ariannol a budd-daliadau lles er mwyn sicrhau bod eu cleientiaid yn cael y wybodaeth arbenigol orau sydd ar gael. Byddem yn croesawu cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y gwaith o ddatblygu'r deunyddiau hyn.

Rydym yn cefnogi'r bwriad a amlinellir y dylid sicrhau rhagor o gysondeb ar draws Cymru i bobl nad ydynt yn arbenigwyr sydd angen addysg ar bynciau penodol gan alluogi canlyniadau a chyfleoedd dysgu cliriach.

### Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno â'r cynllun i greu maes llafur pynciau arbenigol cyson a'i safon wedi'i sicrhau ar lefel 4 (tudalen 37)?

Gweler uchod.

### Cwestiwn 14: Ym mha ffordd y gellid integreiddio'r maes llafur pynciau arbenigol i'r Fframweithiau DPP presennol?

Nid ni yw'r bobl orau i roi sylwadau ar y mater hwn. Fel y nodwyd yng Nghwestiwn 1, rydym wrthi'n edrych ar integreiddio ac yn cydnabod yr anawsterau posibl a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ar integreiddio CThRh i mewn i hyfforddiant yn ymwneud â diogelu plant. Byddem yn croesawu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar integreiddio ac yn barod i rannu'r hyn a ddysgwyd gennym a'n profiad wrth i ni werthuso'r rhaglen YA GOFYN ar draws y rhwydwaith Cyngor ar Bopeth.

### Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r canlyniadau dysgu, y meini prawf asesu, y strwythur cyflwyno a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer lefel 5 (tudalen 43)?

Nid ni yw'r bobl orau i roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.

### Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar lefel 6 (tudalen 46)?

Fel yr amlygwyd yng nghwestiwn 1, credwn ei bod yn hynod bwysig bod unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy drefniant cytundebol yn cael cynnig y cyfle a'i annog i gymryd rhan yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Felly, gall fod yn berthnasol cynnwys uwch-reolwyr sector preifat a thrydydd sector neu eu cynrychiolwyr yn y gwaith a dargedir ar gyfer lefel 6. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pawb sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru'n ymgysylltu â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'i swyddogaeth allweddol o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CThRh, er mwyn gwireddu'r newid mewn diwylliant y mae polisi Llywodraeth Cymru yn ei fwriadu a'i ddymuno.

### Cwestiwn 17: Pa beirianweithiau eraill fyddech chi'n eu hargymell i gynnwys uwch arweinwyr yn yr agenda trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwella ymwybyddiaeth o hyn fel mater yn ymwneud ag arweinyddiaeth?

Hoffem weld, lle bo hynny'n briodol, enghreifftiau o hanesion dioddefwyr a phobl a fu'n cam-drin wedi'u cynnwys yn eu geiriau eu hunain. Mae Cyngor ar Bopeth yn credu bod galluogi pobl i siarad drostynt eu hunain yn annog mwy o bobl yn y gymuned ehangach i gymryd rhan, a gall gynyddu teimladau cadarnhaol o hunan werth a rhoi cyfle i bobl fyfyrio ar eu profiadau a'u rhannu er mwyn hyrwyddo integreiddio personol a derbyn digwyddiadau yn eu bywydau gan ddysgu oddi wrth eraill hefyd. Mae'r pŵer o alluogi unigolion i dystio i'w profiadau i'w weld yn yr enghraifft Poverty Truth Commission in Scotland sy'n argymell *'nothing about us without us is for us'*.

### Cwestiwn 18: Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi:

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu sicrwydd y bydd adnoddau digonol yn cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol i reoli unrhyw gynnydd yn y dioddefwyr CThRh a nodir, sy'n gofyn am arweiniad, cyngor a gwybodaeth bellach o ganlyniad i'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o faterion CThRh.

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed i ganlyniadau yn sgil gofyn fel mater o drefn neu ymholiad wedi'i dargedu, mae angen amser ychwanegol ar gyfer y sawl sy'n gofyn er mwyn gallu ymdrin yn briodol â datgeliadau. Byddem felly'n croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith y gall GOFYN A GWEITHREDU ei chael ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gofyn i hyn gael ei fonitro a'i adolygu.

Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth, bu i ni argymell bod angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cyrff sector cyhoeddus heb eu datganoli'n cysylltu'n briodol â'r Bil a'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Fel y nodwyd yn ein hymchwil ddiweddar i gam-drin ariannol, gall yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ganfod a chynorthwyo cleientiaid sy'n destun cam-drin ariannol gan fod tua hanner yr ymatebwyr i'n harolwg (tua 300 o gynghorwyr) wedi bod yn ymwneud ag achosion lle'r oedd y sawl a oedd yn cam-drin yn rheoli neu'n ymyrryd â budd-daliadau'r dioddefwr. Felly, byddai cynnwys eu staff hwy sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn gallu helpu pobl sy'n dioddef CThRh i gael y cymorth priodol a'r help i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r ffordd y mae budd-

daliadau'n cael eu dosbarthu i deuluoedd mewn achosion o gam-drin ariannol. Mae hyn yn hynod bwysig o gofio'r bwriad i ddyrannu credyd cynhwysol i un cyfrif fesul aelwyd.

**Cwestiwn 19: Nodwch yma os ydych yn credu eich bod yn cynnig hyfforddiant ar hyn o bryd a ddylai gael ei ystyried ar gyfer y maes llafur pynciau arbenigol ar lefel 4. (Bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i swyddog arweiniol y prosiect hwn, sydd efallai'n cael ei gyflogi mewn sefydliad allanol, ac a fydd yn cysylltu â chi maes o law)**.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Elle McNeil
Swyddog Polisi
Cyngor ar Bopeth Cymru
Elle.McNeil@Citizensadvice.org.uk

Ffôn: 03000 231 393